# P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes addysg uwch

## Geiriad y ddeiseb

> Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno system agored a thryloyw er mwyn craffu ar safon y gwasanaeth a ddarperir gan y sector addysg uwch yng Nghymru a'r gwerth am arian y mae'r sector yn ei gynnig, ac i sicrhau bod newidiadau i lefelau gwasanaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=885

**Cynigwyd gan:** Trevor Mayes

**Nifer y llofnodion:** 13

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi a 8 Rhagfyr 2009; 1 Chwefror, 25 Mai, 13 Gorffennaf, 12 Hydref a 16 Tachwedd 2010; a 29 Mawrth 2011.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r deisebydd.